**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 44**
**15 Medi 2025, 14:00-16:00**

**Hybrid (wyneb yn wyneb ac ar-lein)**
**COFNODION**

| **Aelodau yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| Gavin Bown (GB) | Is - gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Yr Uwch-arolygydd Steve Davies (SD) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Wyn Morris (WM) | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| Wayne Thomas (WT) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin |
| Geroge Holloway (GH) | Cymru |
| Vanessa Cashmore (VC) | Un Llais Cymru |
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Coleg Sir Gar |
| Geinor Jones (GeJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Dr Catherine Howarth (CH) | IBERS |
| Y Cynghorydd Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carys Lloyd-Jones (CLJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elinor Ashworth-Chandler (EAC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mandy Williams (MW) | Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Ewan Tennant (ET) | Partneriaeth Bwyd Ceredigion |
| Amie Andrews (AA) | Un Llais Cymru |
| Ann Owen (AO) | Rhwydwaith Bwyd Ceredigion |
| Ewan Tennant (ET) | Rhwydwaith Bwyd Ceredigion |
| Richard Dearing (RD) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Wyn Evans (WE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gregg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Neil Coetzee (NC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walters (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias (TE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion (Cofnodion) |
| Sian Jones (SJ) | *Cyfieithydd* |
| **Aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol:** | |

Neb yn bresennol.

| 44.1 | Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod. Nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Dechreuodd y cyfarfod gyda chyflwyniad yn nodi ei fod yn cael ei gynnal fel sesiwn hybrid gyda'r opsiwn i ymuno ar-lein drwy Teams, gan gyfeirio at weithdy Gwydnwch Bwyd y bore hwnnw yn Holden Farm, Llanbedr Pont Steffan.

**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:**

Megan Harris – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Iwan Cray – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dr Ardiana Gjini – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Matt Adams - Swyddfa Elin Jones – Plaid Cymru
Y Cynghorydd Matthew Vaux - Cyngor Sir Ceredigion

| 44.2 | Cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 2 Mehefin 2025 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 02.06.2025 yn gywir.

| 43.3 | Cwblhau camau gweithredu a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2025 |
|---|---|

Ystyriwyd y camau gweithredu a gytunwyd iddynt yn y cyfarfod blaenorol ar 02.06.25:

| Cofnod o'r Camau Gweithredu – 2 Mehefin 2025 | | |
|---|---|---|
| **1.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn paratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024–2025 er mwyn ei ystyried a'i drafod yng nghyfarfod mis Mehefin.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Y Tîm Partneriaethau |
| **2.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â chydweithwyr rhanbarthol i drafod y cynnig o sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Y Tîm Partneriaethau |
| **3.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn paratoi papur opsiynau ynghylch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol i'w gyflwyno ac i'w ystyried gan y Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Y Tîm Partneriaethau |
| **4.** | Byddai Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei adolygu cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.<br>**Yn parhau.** | Y Tîm Partneriaethau |
| **5.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd ati i gynnull grŵp ffocws i ystyried ac archwilio arferion arloesol wrth bwyso a mesur y posibilrwydd o gyd-leoli a rhannu adeiladau yn Aberystwyth.<br>**Yn parhau - Byddai'r Bwrdd yn derbyn diweddariad gan HLL ynghylch CAVO, fel y cyfeirir ato isod.** | Y Tîm Partneriaethau / PAWB |
| **6.** | Byddai CAVO yn cysylltu â'r 3ydd sector i holi am yr anghenion a'r cynlluniau o ran swyddfeydd neu adeiladau yn Aberystwyth<br>**Yn parhau.** | Hazel Lloyd Lubran |
| **7.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu adroddiadau a chanfyddiadau gweithdai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin; a byddai Hazel Lloyd Lubran yn darparu rhagor o ddiweddariadau yn dilyn y cyfarfod ar 3 Mehefin 2025. **Yn parhau.** | Y Tîm Partneriaethau / Hazel Lloyd Lubran |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8.** | Byddai'r diweddariad ar drafodaethau rhanbarthol yn cael ei anfon at aelodau yn dilyn aildrefnu'r ail gyfarfod ar drafodaethau rhanbarthol.<br>**Wedi'i gwblhau** | Timothy Bray | |
| **9.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cwblhau'r Adroddiad Blynyddol Drafft ac yn ei gylchredeg er mwyn derbyn sylwadau a'i gymeradwyo.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Y Tîm Partneriaethau | |
| **10.** | Byddai HLL yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar ôl derbyn adborth gan aelodau.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Hazel Lloyd Lubran | |
| **11.** | Byddai partneriaid yn parhau i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol ac yn llenwi'r calendr ar-lein, yn ogystal â chynnig cefnogaeth drwy fynychu digwyddiadau yn y dyfodol.<br>**Wedi'i gwblhau.** | PAWB | |
| **12.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn paratoi pecyn digwyddiadau generig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w ddefnyddio gan aelodau mewn digwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol.<br>**Wedi'i gwblhau - Ar gael i'r aelodau ar gais** | Y Tîm Partneriaethau | |
| **13.** | Byddai aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn myfyrio ar y blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac yn cysylltu'n uniongyrchol â Claire Bryant os bydd angen rhagor o wybodaeth.<br>**Wedi'i gwblhau.** | PAWB | |
| **14.** | Byddai GJ yn rhannu canlyniadau dadansoddiad yr arolwg boddhad pobl ifanc ac yn darparu manylion pellach am y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid a gynhelir ar 24 Mehefin.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Gethin Jones /Y Tîm Partneriaethau | |
| **15.** | Byddai MW ac EAC yn gweithio gydag aelodau is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i recriwtio cynrychiolwyr cymunedol ac i ddarparu diweddariad yn y dyfodol i'r Bwrdd ar y Strategaeth Oed-Gyfeillgar.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Melanie Walters a Elinor Ashworth Chandler | |
| **16.** | Byddai CM yn ystyried y platfform Dovetail ar gyfer trefnu mewnwelediadau a darparu adborth ar themâu a thueddiadau https://dovetail.com/<br>**Wedi'i gwblhau.** | Cathryn Morgan | |
| **17.** | Tra bo Cadeirydd yn cael ei benodi i'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, byddai'r Tîm Partneriaethau yn trefnu gweithdy yng Ngheredigion fel y gellid cyfrannu syniadau at y sesiwn ranbarthol ynghylch yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd gyda Sir Gâr yn yr hydref.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Y Tîm Partneriaethau | |
| **18.** | Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno'r Siarter Gwaith Teg i'w sefydliadau fel y gallent ei chymeradwyo'n ffurfiol ac ymrwymo iddi. Gofynnir i bob aelod am ddiweddariad ynghylch hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>**Yn parhau. – mae angen adborth gan aelodau yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.** | PAWB | |

| | | |
|---|---|---|
| **19.** | Byddai TB a HLL yn ystyried sut y gallai argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y dyfodol.<br>**Wedi'i gwblhau.** | Timothy Bray a Hazel Lloyd Lubran |

| | |
|---|---|
| **44.4** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion:** |

- Adolygu'r traciwr gweithgareddau (Cyfarfod 44)

Cyflwynodd Tim Bray (TB) y traciwr gweithgareddau i'r bwrdd, a gafodd y cyflwyniad hefyd ei gylchredeg cyn y cyfarfod. Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar y wefan gan ei bod yn ddogfen waith sy'n olrhain pa feysydd sy'n cael sylw a'r cynnydd yn erbyn pob amcan. Awgrymodd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) y dylai traciwr gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd fod ar gael yn Gymraeg.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn archwilio'r posibilrwydd o greu fersiwn Gymraeg o draciwr gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

- Adroddiad Blynyddol

Cadarnhaodd TB fod yr adroddiad wedi'i gylchredeg i aelodau cyn y cyfarfod ac ymddiheurodd am iddo gael ei farcio fel drafft. Eglurodd fod yr Adroddiad Blynyddol 2024–2025 yn derfynol, wedi'i gylchredeg i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

- Templedi a llythyr y Siarter Gwaith Teg a ddarparwyd i'r aelodau

Trafododd Tim Bray (TB) y Siarter Gwaith Teg, a ddatblygwyd gan yr is-grŵp Tlodi ynghyd ag is-grŵp ychwanegol oedd yn cynnwys arbenigwyr Adnoddau Dynol a Chaffael o amryw o sefydliadau. Mae'r siarter hon yn nodi 15 o argymhellion a drafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn gofyn i bartneriaid rannu'r siarter ag adrannau perthnasol o fewn eu sefydliadau, gyda'r bwriad o ymrwymo i'r siarter erbyn mis Mawrth 2026. Cadarnhaodd TB fod Cathryn Morgan (CM) wedi cyflwyno'r siarter drwy Grŵp Arweiniol Cyngor Sir Ceredigion, ac wedi cynhyrchu fersiwn wedi'i golygu o'r cyflwyniad i gynorthwyo aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu'r broses uwchgyfeirio yn eu sefydliadau. Anfonwyd llythyr hefyd at uwch-swyddogion sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu'r Siarter Gwaith Teg, gyda'r nod o annog sefydliadau i'w chefnogi'n ffurfiol. Cadarnhaodd Diana Davies (DD) y bydd y siarter yn mynd trwy broses ddemocrataidd Cyngor Sir Ceredigion cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Nododd HLL fod trefnu is-grwpiau â ffocws gydag aelodau priodol o'r grŵp i weithredu ffrwd waith benodol yn ffordd effeithiol o gydweithio a hoffai weld mwy o hyn yn digwydd.

Cadarnhaodd Steve Thomas (ST) fod cydweithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi adolygu'r siarter a'u bod yn fodlon â'r argymhellion a gynigiwyd. Bydd camau bellach yn cael eu nodi i'w chyflwyno drwy'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol o fewn strwythur y Brifysgol.

Mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn y dasg o roi adborth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, er mwyn rhannu sut mae hyn yn mynd rhagddo o fewn eu

sefydliadau. Bydd Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â sefydliadau cyn y cyfarfod i gasglu diweddariad llawn gan bob aelod.

**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â'r holl bartneriaid cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y broses o gymeradwyo'r Siarter Gwaith Teg yn ffurfiol.**

| **44.5** | **Trafodaethau ynghylch Cydweithio Rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
|---|---|

- Diweddariad ar y Trafodaethau ac Adroddiad Opsiynau

Eglurodd Tim Bray (TB), yn dilyn y trafodaethau blaenorol a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y posibilrwydd o wella cydweithio rhanbarthol rhwng byrddau, fod papur a thabl opsiynau wedi'u cynhyrchu a'u rhannu ag aelodau er mwyn eu trafod. Mae Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda chydweithwyr swyddogion cymorth byrddau gwasanaethau cyhoeddus Powys, Sir Gâr a Sir Benfro i archwilio a oedd diddordeb gan fyrddau eraill mewn cydweithio rhanbarthol. Mae Powys wedi gwrthod y syniad o uno'n rhanbarthol, ond maent yn dal yn awyddus i gydweithio ar ffrydiau gwaith lle bo'n bosibl. Felly, dim ond Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro a ystyrir yn y papur opsiynau o ran y trafodaethau hyn.

Cyflwynodd Neil Coetzee (NC) (cydlynydd data rhanbarthol) y papur, a oedd yn nodi manteision ac anfanteision pum opsiwn posibl. Roedd hefyd yn cynnwys adborth a gwersi a ddysgwyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru sydd wedi uno neu'n cydweithio'n ffurfiol ag awdurdodau cyfagos eraill. Nododd HLL bod cyfarfodydd cadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro hefyd wedi cael eu cynnal i drafod pethau cyffredin rhwng y 3 bwrdd.

Nododd Tim Bray (TB) bwysigrwydd sicrhau bod amseriad unrhyw uno rhanbarthol posibl yn cyd-fynd ac yn integreiddio â chwblhau'r Asesiad Llesiant Lleol nesaf. Disgwylir i'r trafodaethau ynghylch hynny ddechrau ym mis Ionawr 2026.

Nododd DD fod swyddogion wedi ystyried y dull mwyaf priodol o gyflwyno'r pum opsiwn posibl i'r bwrdd, gan fod rhywfaint o wahaniaeth yn y ffordd y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi penderfynu uno neu gydweithio. Eglurodd DD fod rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â'r byrddau eraill, gyda'r opsiwn i uno'n llwyr neu barhau â thri bwrdd ar wahân ond i gydweithio'n ffurfiol ar ffrydiau gwaith penodol. Gofynnodd DD i'r aelodau am adborth ac arweiniad ynghylch sut yr hoffent i Dîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fwrw ymlaen, gan atgoffa'r grŵp o'r angen i wneud penderfyniad ar frys pe bai'r bwrdd yn dymuno uno'n rhanbarthol fel un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â pharatoi'r Asesiad Llesiant Lleol nesaf).

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies (BD) i Dîm y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y gwaith a gwblhawyd mewn perthynas â'r uno rhanbarthol posibl. Eglurodd BD ei fod yn awyddus i weld cynnydd o ran gweithio ar lefel ranbarthol gan fod ffrydiau gwaith ar draws y tair sir yn aml yn alinio a gwelir dyblygu o ran amser ac ymdrech. Mae gweithio ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ddull synhwyrol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei fabwysiadu er mwyn sicrhau alinio ag ef. Nododd Gavin Bown (GB) fod dull arferol gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys gweithio ar draws Cymru gyfan neu ar lefel ranbarthol, felly byddai unrhyw gydweithio rhanbarthol yn cyd-fynd yn dda â'r dull hwnnw. Mae'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd, sy'n cael ei

gwblhau ar y cyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus Ceredigion a Sir Gâr, yn enghraifft dda o sut y gall gwaith rhanbarthol arwain at effeithlonrwydd. Tynnwyd sylw at y gofyniad i beidio â cholli ffocws Ceredigion gan lawer o aelodau felly mewn unrhyw achos o uno neu gydweithio, byddai'n hanfodol sefydlu proses lle gellid cynnal ffocws lleol.

Nododd Barry Rees (BR) ei fod yn cytuno a'r aelodau eraill o ran yr awydd i weithio ar lefel ranbarthol er mwyn lleihau dyblygu ac i ganolbwyntio ymdrechion yr aelodau yn fwy effeithiol Amlinellodd Barry Rees (BR) bwysigrwydd ystyried meysydd risg megis llywodraethu a chyfansoddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, gan nodi y byddai'n rhaid i Geredigion sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn deg o fewn unrhyw drefniant rhanbarthol, gwaeth beth fo maint ei phoblogaeth ac ati. Cytunodd HLL y byddai partneriaeth deg a chydweithrediad gyda chynrychiolaeth gyfartal ar fwrdd rhanbarthol yn hanfodol.

Rhannodd HLL ei barn ynghylch canolbwyntio ymdrechion ar yr hyn y **byddai'r** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus posibl **yn ei wneud** yn hytrach na **sut** y caiff ei wneud, gan sicrhau bod amcanion, nodau a ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu'n effeithiol i alluogi newid gwerthfawr yng Ngheredigion.

Holodd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) pa arbedion pendant o ran adnoddau ac arian a fyddai i'w gweld pe bai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth yn uno? Nododd DD fod y posibiliadau a amlinellwyd yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth strategol gan fwrdd rhanbarthol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, lle y gellid cynnal trafodaethau effeithiol. Yna byddai is-grwpiau penodol yn cael eu trefnu i gyflawni newid ar draws y rhanbarth. Byddai adnoddau ac amser yn cael eu harbed gan fod sgyrsiau tebyg yn aml yn cael eu cynnal mewn cyfarfodydd ar wahân ar bynciau tebyg sy'n berthnasol ar draws y rhanbarth. Nododd DD nad yw'r costau penodol wedi'u cyfrifo eto, ond y gellid trefnu hyn pe byddai'r bwrdd yn dymuno gweithredu hynny. Nodwyd y byddai'n rhaid i bob aelod o'r bwrdd ddarparu'r data a'r costau perthnasol er mwyn i hyn allu digwydd. Holodd HLL a fyddai opsiwn i dreialu uno rhanbarthol ar y sail bod y siroedd yn gweithio ar y cyd yn hytrach nag uno'n llawn? Nododd DD yr anhawster o ran trefnu'r gefnogaeth a'r adnoddau gweinyddol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail cyfnod prawf, yn ogystal ag anhawster nodi unrhyw effeithlonrwydd posibl tra byddai'r tri bwrdd yn gweithredu'n annibynnol.

Holodd Steve Thomas (ST) a oedd posibilrwydd hefyd i gydweithio â Phowys a Gwynedd ar brosiectau penodol.? Nododd DD fod trafodaethau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill sydd eisoes wedi uno wedi dangos eu bod wedi datblygu eu Cylch Gorchwyl i sicrhau bod pob sir yn gallu cydweithio ag ardaloedd eraill lle bo hynny'n briodol. Gall Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion nodi a datblygu'r Cylch Gorchwyl yn unol â'r hyn y byddai'r aelodau'n teimlo sy'n fwyaf buddiol i'r ardal.

Nododd BR yr anawsterau y gallai opsiwn 3a eu hachosi mewn perthynas â'r broses ddemocrataidd, tra bod gan opsiwn 2 ffocws, mae'n newydd a bydd yn denu uwch swyddogion i'r trafodaethau rhanbarthol allweddol — swyddogion sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliadau. Tynnodd BR sylw at yr heriau sy'n cael eu hwynebu yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a phwysigrwydd mynd i'r afael â'r heriau hyn fel rhanbarth, ynghyd â'r manteision posibl y gellid eu cyflawni. Cytunodd TB fod sicrhau presenoldeb uwch gynrychiolwyr mewn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fantais amlwg o ran cyflawni nodau ac amcanion y cynllun cyflawni. Cytunodd HLL fod canolbwyntio amser ac ymdrech ar gyflawni newid yn fwy buddiol na mynychu nifer

o gyfarfodydd lle mae trafodaethau tebyg yn cael eu cynnal. Holodd CD beth fyddai'r budd i Geredigion o ganolbwyntio ei hymdrechion ar bryderon sy'n fwy perthnasol i Sir Gâr a Sir Benfro. Nododd HLL y bydd dysgu a strategaeth yn aml yn deillio o drafodaethau rhanbarthol, a gall is-grwpiau penodol ym mhob sir barhau i weithredu i fynd i'r afael â materion lleol, gydag arbenigwyr o sefydliadau lleol yn ymuno pan fo'n berthnasol.

Eglurodd TB fod rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill sydd wedi uno yn cynnal proses bob pum mlynedd, lle mae aelodau etholedig ac aelodau'r bwrdd yn gallu ailddatgan eu penderfyniad trwy bleidleisio i benderfynu a ydynt am barhau fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol neu ddychwelyd i weithredu'n annibynnol.

Crynhodd HLL y drafodaeth, gan nodi bod yr holl opsiynau wedi'u trafod yn fanwl, ond mai opsiwn 2 ac opsiwn 3a oedd fwyaf ffafriol gan yr aelodau — gyda rhai'n ffafrio opsiwn 2 ac eraill yn ffafrio opsiwn 3a. Awgrymodd HLL y byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol y gellid ei pharatoi a'i chyflwyno i'r aelodau ynghylch opsiwn 2 ac opsiwn 3a yn werthfawr. Awgrymodd HLL hefyd y dylid cynnal trafodaethau â Sir Gâr a Sir Benfro i ddeall a yw'r ddau opsiwn hyn hefyd yn bosibilrwydd iddynt hwy.

**CAM GWEITHREDU: Byddai TB yn rhannu canlyniadau'r trafodaethau ar uniad rhanbarthol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd Sir Gâr a Sir Benfro.**

**CAM GWEITHREDU: Byddai NC yn ystyried a oes unrhyw wybodaeth bellach y gellid ei darparu mewn perthynas ag opsiynau 2 a 3a yn y papur opsiynau rhanbarthol.**

Gofynnodd HLL i bob aelod roi adborth i'w sefydliadau ar y trafodaethau a gynhaliwyd, gan amlinellu opsiwn 2 neu opsiwn 3a fel newid posibl i strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynigiwyd cynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Tachwedd, a fyddai'n canolbwyntio ar drafodaethau rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unig, er mwyn casglu adborth a chynnal pleidlais gan yr holl aelodau.

**CAM GWEITHREDU: Byddai holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu opsiynau 2 a 3a gyda'u sefydliadau ac yn casglu adborth yn barod ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd. Os na all aelodau fynychu'r cyfarfod, rhaid cyflwyno sylwadau i Dîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymlaen llaw.**

**Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn trefnu cyfarfod opsiynau rhanbarthol ym mis Tachwedd, i gynnwys adborth a phleidlais fel eitemau ar yr agenda.**

Cafodd yr **adolygiad o'r Cylch Gorchwyl** ei ohirio tan ar ôl y trafodaethau cydweithio rhanbarthol, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Cylch Gorchwyl yn Dilyn, fel bo'n briodol.

| **44.6** | **Sesiwn Sbotolau: Bwyd a Llesiant** |
|---|---|

- Amie Andrews - Ymyriadau Labordy Arloesi ar Fwyd a Llesiant (Prifysgol Aberystwyth)

Cyflwynodd Amie Andrews (AA) ei hun i'r grŵp a diolchodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig,

sy'n cefnogi Datblygu Cynhwysol a Chynaliadwy tuag at economi llesiant. Mae AA yn arwain ar elfen Labordai Arloesi'r prosiect hwn. Nododd AA fod y tîm wedi bod yn gweithio ar fwyd a llesiant gyda ffocws ar arloesi, ac y gallai'r ffrwd waith hon fod yn ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddatblygu'r cynllun llesiant nesaf.

Mae 4 thema gyffredinol sy'n cael sylw ar hyn o bryd:

- Gwella Lles yn y gymuned
- Adeiladu Economi Adfywiol
- Cefnogi'r Broses Pontio Sero Net
- Grymuso Cymunedau ar gyfer Adferiad Diwylliannol

Mae'r labordy arloesi a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar Hybu Llesiant yn y Gymuned. Mae ffrwd waith y labordai arloesi wedi dilyn proses 5 cam; Nodi thema eang, Mapio cyfranogwyr, Arolwg Ymgysylltu a Llinell Sylfaen, Cynnal gweithdai labordy arloesi, datblygu a phrofi ymyriadau yn ymarferol, adolygu, gwerthuso a chyfathrebu'r canfyddiadau. Mae'r labordai arloesi yn canolbwyntio ar arloesi cymdeithasol ac ar ddod â phobl ynghyd i gyfathrebu a rhannu syniadau drwy sesiynau gweithdy.

Cafodd tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd eu nodi gan y grŵp fel y thema eang, ac yna trefnwyd tri gweithdy wyneb yn wyneb. Nod y gweithdai oedd adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd a defnyddio'r model Tri Gorwel i weithredu syniadau newydd sy'n creu gwerth. Roedd mapio rhanddeiliaid yn amlinellu sawl sefydliad a allai ychwanegu gwerth at y prosiect hwn, gwahoddwyd 80 o sefydliadau a mynychodd 34 gyda chynrychiolaeth o'r Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Dechrau'n Deg, Undeb y Myfyrwyr, ac ati.

Nodwyd pedair menter arloesol o'r gweithdai: 1. Rhwydwaith Cegin Gymunedol dan Arweiniad y Gymuned, 2. Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Tyfu, Coginio a Bwyta, 3. Model Fferm Gymunedol, 4. Mentor Systemau Bwyd. Ymhlith y materion a'r themâu ailadroddus a drafodwyd roedd cymunedau sydd wedi colli cydlyniant, dod â gwasanaethau cymunedol i ben, trafnidiaeth a mynediad, cost ac argaeledd cynnyrch lleol, a materion iechyd a deiet.

Nododd AA fod gan bob un o'r pedair menter arloesol a awgrymwyd manteision ar gyfer llesiant a'r gymuned, gyda'r potensial i ddod â phobl ynghyd i ddatblygu sgiliau o ran tyfu a bwyta bwyd lleol, gan greu cysylltiadau cryf â chynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol. Nododd GrJ y potensial i ddefnyddio Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ar gyfer y rhwydwaith cegin gymunedol a'r fenter mentor systemau bwyd, gan fod hyn yn cyd-fynd ag amcanion y ganolfan, ac y byddai'r cysylltiad agos â banc bwyd a chanolfan deuluol Llanbedr Pont Steffan yn werthfawr.
**Byddai Cathryn Morgan yn trefnu cyfarfod i Greg Jones ac Aime Andrews i drafod y posibilrwydd o gynnal y rhwydwaith cegin gymunedol yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan.**

Nododd AA y gofynnwyd i bob cyfranogwr yn y gweithdai bleidleisio ar y pedair menter arloesol, gan ystyried brwdfrydedd, effaith ac arloesedd. Derbyniodd y dull ysgol gyfan a'r rhwydwaith cegin gymunedol y nifer fwyaf o bleidleisiau, gyda'r rhwydwaith cegin gymunedol yn derbyn mwy o bleidleisiau am frwdfrydedd, a'r dull ysgol gyfan yn derbyn mwy o bleidleisiau am effaith. Yna, cafodd y mentrau arloesol eu cyflwyno gerbron panel y Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Leol, a theimlwyd mai prosiect cenedlaethol oedd y dull ysgol gyfan a fyddai'n gofyn am gyllid cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Nododd yr adborth gan y panel y dylai'r prosiect hwn ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig Cymru. Mae gan y prosiect £30,000 a blwyddyn i ddatblygu'r rhwydwaith cegin gymunedol, a byddai'n fuddiol cael partneriaid yn rhan o'r gwaith. Pwysleisiodd AA bwysigrwydd sicrhau bod hyn yn cyfrannu at un o nodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'i fod yn rhywbeth a all barhau ar ôl y cyfnod gweithredu 1 flwyddyn.

Rhoddodd AA ddiweddariad byr ar y broses trosglwyddo i sero net, ac eglurodd mai'r nod ar gyfer y prosiect hwn yw gweithio tuag at Gymru lle mae garddwriaeth garbon isel a chyfeillgar i natur yn cael ei chefnogi a'i gwobrwyo, fel rhan o system fwyd wydn. Datblygodd y gweithdai'r chwe menter arloesol ganlynol: 1. Gwasanaeth paru tir, 2. Cystadleuaeth ar gyfer garddwyr ifanc, 3. Adnoddau addysgol cenedlaethol, 4. Bwyd cyflym gan ddefnyddio Ffrwythau a Llysiau Ffres Cymreig, 5. Marchnadoedd diogel ar gyfer garddwriaeth ar raddfa caeau, 6. Cynlluniau bwyd rhanbarthol ar gyfer trefi marchnad a'r ardaloedd cyfagos. Cadarnhaodd AA y bydd un o'r mentrau hyn yn cael ei datblygu ymhellach, a gellir rhannu mwy o wybodaeth gyda'r grŵp yn y dyfodol.

Nododd HLL ei diddordeb yn null y canolfannau arloesi o ddadansoddi heriau a thrafod atebion, ac fe holodd y bwrdd a oeddent yn cytuno i weithredu'r dull hwn o weithio gyda ffrydiau gwaith yn y dyfodol? Cadarnhaodd AA y bydd pecyn cymorth yn cael ei baratoi, gan amlinellu'r hyn a wnaed i gyflawni'r canlyniad hwn, a fydd, gobeithio, o fudd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Holodd Steve Davies (SD) a oedd modd cynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu'r rhai sydd eisoes wedi troseddu o fewn y rhwydwaith cegin gymunedol? Awgrymodd BR y dylid cysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor i gael gwybodaeth am sut y gellid trefnu hyn.

**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddusyn cysylltu â Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion i archwilio a allai pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu fod yn rhan o brosiect cegin dan arweiniad y gymuned gan Amie Andrews.**

**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cylchredeg cyflwyniad y Labordai Arloesi a manylion cyswllt Aime Andrews i aelodau'r Bwrdd. Gwahoddir aelodau i gysylltu ag AA yn uniongyrchol gydag unrhyw sylwadau neu awgrymiadau.**

| **44.7** | **Ymgysylltu** |
|---|---|

- **Digwyddiadau Gwybodaeth Cynllun Llesiant, Digwyddiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a fynychwyd**

Gofynnodd Teleri Elias (TE) i bartneriaid hysbysu Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am unrhyw ddigwyddiadau newydd posibl y gall y tîm eu mynychu. Mae adnoddau a thaflenni gwybodaeth wedi'u cynhyrchu y gellir eu darparu i'w rhannu mewn digwyddiadau, ac anogir pob aelod i gysylltu â thîm y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am gopïau.

- **Ceredigion Oed-gyfeillgar**

Nododd Greg Jones (GJ), yn dilyn cyflwyniad Elinor Ashworth-Chandler yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fod 34 o gynrychiolwyr dinasyddion bellach wedi'u nodi ledled y sir, gyda dau arall wedi mynegi diddordeb. Nododd HLL pa mor werthfawr fydd eu mewnbwn wrth ddatblygu'r cynllun llesiant nesaf.

Rhannodd Cathryn Morgan (CM) ei bod hi wedi bod yn datblygu 'Panel y Bobl', gyda 80 o bobl eisoes wedi cofrestru. Y bwriad yw i'r grŵp hwn gynrychioli cymunedau ledled Ceredigion, ac i fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer gofyn cwestiynau a derbyn adborth wrth ddatblygu syniadau, polisïau a strategaethau. Awgrymodd HLL drefnu grwpiau ffocws yn y dyfodol lle bydd sylwadau ac adborth gan y panel hwn yn allweddol. Rhannodd CM daflenni yn y cyfarfod, a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r aelodau drwy e-bost.

**CAM GWEITHREDU: Byddai Cathryn Morgan yn rhannu rhagor o wybodaeth am 'Panel Pobl Ceredigion' gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

- **Ymchwil i Offer Dadansoddi Data**

Dywedodd Neil Coetzee (NC) fod amser wedi'i dreulio yn edrych ar y gwahanol ffyrdd y gall defnyddwyr gadw, rhannu ac adfer data sy'n ymwneud â'r Asesiad Llesiant Lleol nesaf nid yn unig o fewn y Cyngor, ond hefyd gydag aelodau a sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Un o'r prif amcanion yw gwneud y data yn hygyrch ac yn hawdd ei rannu. Ymchwiliwyd i feddalwedd â thâl yn ogystal ag apiau cod agored am ddim. Canfuwyd fod y cynigion â thâl yn ei chael hi'n anodd dangos pwynt gwerthu unigryw o ran system rheoli cronfeydd data, a byddai ffi i gael mynediad at y feddalwedd hon. Gallai'r syniad o fynediad â thâl gyfyngu ar y modd y gellir rhannu'r data, gan leihau defnyddioldeb cyffredinol y platfform os na all pawb gael mynediad iddo.

Parhaodd NC gan nodi, er bod cynigion cod agored yn rhad ac am ddim, eu bod yn gyfyngedig iawn o ran eu swyddogaethau a'r cymorth sydd ar gael. Efallai y bydd cyfyngiadau wrth gael mynediad i'r data hwn gan wahanol sefydliadau ac ystyriwyd agweddau megis diogelwch data, hyfforddiant a hygyrchedd ar gyfer y ddau opsiwn.

Nododd NC ei fod bellach yn edrych ar ddefnyddio ac ehangu ar opsiynau sydd eisoes yn hygyrch megis MS Teams a SharePoint. Gofynnodd NC i holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rannu unrhyw offer neu systemau defnyddiol y gallai sefydliadau eraill fod yn eu defnyddio'n effeithiol. Bydd diweddariad yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
**CAM GWEITHREDU: Byddai Neil Coetzee yn darparu diweddariad ar yr opsiynau ar gyfer rhannu data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| **44.8** | **Diweddariadau Grŵp Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** |
|---|---|

i. **Hinsawdd a Natur** Asesiad Risg Newid Hinsawdd (Richard Dearing Cyfoeth Naturiol Cymru)

Dywedodd Richard Dearing (RD) ei fod yn ddiolchgar am y cyfle i weithredu fel cadeirydd is-grŵp Hinsawdd a Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyfarfu'r grŵp ar 08/09/2025, lle cynhaliwyd dau weithdy o bell i drafod yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd, a fydd hefyd yn llywio'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf. Roedd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn bresennol ac yn hwyluso'r gweithdai, a oedd yn canolbwyntio ar fapio rhanddeiliaid er mwyn asesu pwy ddylai fod yn rhan, a phwy y dylid ymgynghori â nhw wrth gynhyrchu'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd, ynghyd â thrafodaeth ar y polisïau a'r strategaethau presennol sydd eisoes ar waith gan sefydliadau partner. Bydd canlyniad y gweithdy yn cael ei rannu gydag aelodau'r grŵp cyn bo hir. Nododd RD y manteision cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr i gynhyrchu'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd.

ii. **Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan** – ni chynhaliwyd cyfarfod, dim diweddariad.

iii. **Llesiant yn Aberteifi** (Hazel Lloyd Lubran, CAVO)

Diolchodd HLL i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod, gan nodi bod y cyfarfod wedi derbyn diweddariadau gwerthfawr ynghylch Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion a'r fenter Ceredigion Oed-gyfeillgar.

iv. **Diweddariad y Grŵp Tlodi – Gwaith Teg** (Y Cynghorydd Catrin Davies/ Cathryn Morgan)

Nododd CD fod cyfarfod blaenorol yr is-grŵp Tlodi wedi denu presenoldeb da, ac y cynhaliwyd trafodaethau defnyddiol. Derbyniodd y grŵp gyflwyniad gan *Plant Dewi* a Rob Starr ar ganfyddiadau interim Tlodi Gwledig, a fydd yn cael eu rhannu'n ehangach ar ôl eu cwblhau. Nododd CD fod

| | |
|---|---|
| trafodaethau wedi amlygu'r diffyg ymwybyddiaeth o ba gymorth a grantiau sydd ar gael i bobl eu hawlio. | |
| **44.9** | **Diweddariad y Cadeirydd** |
| Nododd HLL ei bod wedi bod yn rhan o weithdy yn ddiweddar yn trafod strategaeth economaidd yng Ngheredigion lle codwyd a thrafodwyd nifer o bwyntiau diddorol. Awgrymodd HLL ychwanegu'r strategaeth economaidd fel y sesiwn sbotolau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd hefyd y gallai hyn fod yn gyfle da i ailystyried fformat strategaethau a pholisïau, gan ganolbwyntio ar wybodaeth gryno wedi'i chyflwyno mewn ffordd effeithiol.<br>**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn trefnu cyflwyniad ar y Strategaeth Economaidd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** | |
| **44.10** | **Adborth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
| Cadarnhaodd y Cynghorydd Wyn Evans (WE) fod Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion wedi ystyried cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (02/07/2025) ynghyd â'r papurau ategol a drafodwyd yn y cyfarfod.<br><br>Nododd HLL bwysigrwydd sicrhau bod Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar y trafodaethau rhanbarthol y mae'r bwrdd yn eu cynnal. Nodwyd bod y cyfarfod craffu nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref. | |
| **44.11** | **Unrhyw Fater Arall** |
| Diolchodd TB i Holden Farm Dairy am eu haelioni wrth groesawu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac i Teleri Elias a Lynne Walters am eu cefnogaeth wrth drefnu'r diwrnod. | |
| **42.12** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 1 Rhagfyr 2-4pm** |

| **Cofnod o'r Camau Gweithredu sy'n parhau** | | |
|---|---|---|
| **1.** | Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **2.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn trefnu grŵp ffocws i ystyried ac archwilio dulliau arloesol ar gyfer rhannu adeiladau a chyd-leoli posibl yn Aberystwyth. | **Y Tîm Partneriaethau / PAWB** |
| **3.** | Byddai CAVO yn cysylltu â'r trydydd sector i holi am unrhyw anghenion neu gynlluniau o ran swyddfa neu adeilad yn Aberystwyth. | **Hazel Lloyd Lubran** |
| **4.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu adroddiadau a chanfyddiadau gweithdai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin; byddai Hazel Lloyd Lubran yn darparu diweddariadau pellach yn dilyn cyfarfod 3 Mehefin 2025. | **Y Tîm Partneriaethau / Hazel Lloyd Lubran** |
| **5.** | Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno Siarter Gwaith Teg i'w sefydliadau er mwyn sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol a chofrestru. Gofynnir i bob aelod roi diweddariad ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **PAWB** |
| **6.** | Byddai Tîm Partneriaethau yn archwilio'r posibilrwydd o greu fersiwn Gymraeg o draciwr gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Y Tîm Partneriaethau** |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gysylltu â'r holl bartneriaid cyn cyfarfod nesaf y BGC i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y Siarter Gwaith Teg. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **8.** | Byddai Tim Bray yn rhannu canlyniad y trafodaethau uno rhanbarthol o gyfarfodydd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. | **Tim Bray** |
| **9.** | Byddai Neil Coetzee yn ystyried a oes modd darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas ag opsiynau 2 a 3a yn y papur opsiynau rhanbarthol. | **Neil Coetzee** |
| **10.** | Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu opsiynau 2 a 3a gyda'u sefydliadau ac yn casglu adborth yn barod ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd. Os na all aelodau fynychu'r cyfarfod, rhaid cyflwyno sylwadau i Dîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymlaen llaw. | **PAWB** |
| **11.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn trefnu cyfarfod opsiynau uno rhanbarthol ym mis Tachwedd, i gynnwys adborth a phleidlais fel eitemau ar yr agenda. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **12.** | Byddai Cathryn Morgan yn trefnu cyfarfod i Greg Jones ac Amie Andrews i drafod y posibilrwydd o gynnal y rhwydwaith cegin gymunedol yng Nghanolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan. | **Cathryn Morgan, Greg Jones** |
| **13.** | Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gysylltu â Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion i archwilio a allai pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu fod yn rhan o brosiect y rhwydwaith cegin gymunedol gan Amie Andrews. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **14.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cylchredeg cyflwyniad y Labordai Arloesi a manylion cyswllt Aime Andrews i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwahoddir aelodau i gysylltu ag AA yn uniongyrchol gydag unrhyw sylwadau neu awgrymiadau. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **15.** | Byddai Cathryn Morgan yn rhannu rhagor o wybodaeth am 'Banel Pobl Ceredigion' gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Cathryn Morgan** |
| **16.** | Neil Coetzee i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am opsiynau ar gyfer rhannu data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Neil Coetzee** |
| **17.** | Byddai Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn trefnu cyflwyniad ar y Strategaeth Economaidd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Y Tîm Partneriaethau** |